# COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD 2IL O ORFFENNAF 2025

Yn bresennol: Y Cadeirydd: Aron Roberts

Y Cynghorwyr: Llywarch Davies, Richard Davies, Sarah Hughes, Hefin Jones, Enid Roberts, Annest Smith, Idwal Williams.

Hefyd yn bresennol: Karen Hughes (Swyddog Ariannol)
Lona Williams (Clerc)

Ymddiheuriadau: Elfed Roberts (Cynghorydd Sir), Iwan Jones, A. Huw Jones , Aranli Thomas.

## 2466 - COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y 4ydd o Fehefin fel y rhai cywir gan y Cadeirydd.

## 2467 - MATERION YN CODI O'R COFNODION

1401(3b) a 2191(1) - Garej Lôn – Adroddodd y Clerc bod crynodeb o ddigwyddiadau wedi eu gyrru ymlaen i'r AS Liz Saville Roberts a nad oedd ymateb hyd yma. Adroddwyd bod un o drigolion y pentref sy'n byw gerllaw methu a mynd i'w gwaith gan fod cerbydau garej lôn yn ei hatal rhag mynd. Holwyd a fyddai'n bosib rhoi llinellau melyn ar ran o'r ffordd er mwyn hwyluso'r ardal yma. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn e-bostio pennaeth Ysgol Bro Hedd Wyn er mwyn holi os oes ganddyn nhw unrhyw bryderon am eu mynedfa nhw i'r ardal yma, ac yna gallwn yrru'r pryderon yma ymlaen i AS Liz Saville Roberts.

1774(4) - Gardd Sylvia Crowe, Sgwar y Ddraig a'r Adeilad Man Gwylio – Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones ei fod wedi derbyn e-bost gan Ms Elin Parry Jones yn nodi fod Mr Tom Williams wedi bwriadu dod i gyfarfod y Cyngor ond nad oedd yn medru dod bellach ac a'i fod am geisio mynychu'r cyfarfod ym mis Medi.

1842(2) a 1878(7) a 2024(4) - Cyflymder a Goleuadau Stryd Bronaber/ Damweiniau ar ffordd A470/A4212 – Adroddodd y Clerc bod y Cynghorydd Sir Mr Elfed Roberts mewn cysylltiad parhaus gyda'r AS Mabon ap Gwynfor a'u bod am ddod i Drawsfynydd i edrych ar y sefyllfa. Adroddodd y Cynghorydd Idwal Williams bod Ysgol Bro Hedd Wyn am greu posteri ar gychwyn y tymor nesaf i annog pobl i beidio a gôr yrru.

2068(2) - Mynwent Pencefn – Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones bod y Cyngor yn aros am adroddiad gan Bold Environmental er mwyn medru symud ymlaen. Dywedwyd y byddai'r adroddiad yn cyrraedd cyn diwedd mis Mehefin.

2099(6) - Marciau Gwyn y Pentref/Maes Parcio Bryn Glas – Adroddodd y Clerc bod Cyngor Gwynedd wedi dweud nad oeddynt am fabwysiadu'r tir . Penderfynwyd i aros tan fis Medi pan fo Cyngor Gwynedd yn ail wynebu rhannau o'r pentref er mwyn gofyn iddynt osod llinellau gwyn bryd hynny, os na fyddai hyn yn bosib atgoffodd y Cynghorydd Hefin Jones ein bod wedi derbyn amcan bris gan T D Plant Hire yn y gorffennol ond byddai'n rhaid gofyn am bris eto.

2247(2) - Meinciau Gardd Salem – Adroddwyd bod y meinciau newydd wedi eu gosod. Awgrymodd yr Is-gadeirydd Aranli Thomas ein bod yn gosod plac ar y meinciau newydd yng Ngardd Salem gyda enw y diweddar Gynghorydd Keith O'Brien arno. Awgrymwyd y dylid cysylltu gyda Mrs Glynda O'Brien i drafod y syniad o osod plac a cadarnhawyd y byddai'r Cynghorydd Sir Elfed Roberts yn mynd i'w gweld. Adroddodd y Swyddog Ariannol bod un plac yn bodoli yn barod gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a bod angen i ni ddod o hyd iddo. Gofynnwyd i'r Cadeirydd Aron Roberts ofyn i Mr David Owen am y plac oedd eisoes ar meinciau gardd Salem yn ogystal ac ail-ofyn am anfoneb am y gwaith cychwynnol a gwblhawyd.

2252(3) - Cofeb Hedd Wyn (Naomi Jones Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) – Adroddodd y Cyngorydd Hefin Jones ei fod o a'r Cynghorydd Sarah Hughes wedi mynychu cyfarfod gyda'r pensaer Rhys Davies. Awgrymodd Mr Davies gynllun ychydig yn wahanol i gynllun y diweddar Mr Keith O'Brien. Rhoddai'r cynllun y pensaer y cyfle i'r gofeb edrych yn fwy trawiadol gyda grisiau yn mynd i fyny at y gofeb a bod rhan o'r ffordd o flaen y gofeb wedi ei chodi oddi tano. Adroddwyd y byddai bwrdd gwybodaeth yn cael ei arddangos yn ogystal a golau o Glasfryn tuag at y capel. Soniwyd bod nifer o ddeunyddiau gwahanol ar sgwâr y pentref ar hyn o bryd e.e bolard metel, ffyn du a chadair bren a awgrymodd y pensaer y byddai'n edrych yn well pe bai popeth or un deunydd Cytunodd y Cynghorwyr i gymeradwyo'r cynllun newydd ac y byddai'r Clerc yn e-bostio Mr Rhys Davies er mwyn iddo wneud trefniadau pellach gyda'r Parc Cenedlaethol.

2255(1) - Pont droed Llyn Trawsfynydd – Adroddodd y Clerc iddi dderbyn e-bost gan Ms Elin Parry Jones yn nodi ei fod am fynychu'r cyfarfod heno, ond yn anffodus oherwydd ymrwymiad arall nad oedd yn medru mynychu. Cytunwyd i anfon e-bost i Ms Elin Parry Jones i holi pa bryd y byddai ar gael.

2333(11) - Ffordd tu cefn i 1-6 Bro Prysor – Adroddodd y Clerc nad oedd ymateb pellach i nifer o e-byst yr oedd wedi gyrru'n flaenorol a penderfynwyd i e-bostio eto. Adroddwyd bod Mr Adrian Roberts wedi copio'r Cyngor i mewn i'w e-byst i Adra gan ei fod angen gwneud gwaith rhwng rhif 1 a 2 Bro Prysor a nad oedd yn medru cael mynediad ato.

2334(1) - Gwefan y Cyngor – Adroddodd y Swyddog Ariannol ei bod wedi gofyn i Gwe Cambria beidio a lansio'r wefan tan fis Medi gan fod nifer o ddogfennau heb gael eu rhoi ar y wefan eto. Dywedwyd bod Gwe Cambria wedi gyrru anfoneb am y gwaith a wnaethpwyd hyd yma. Adroddwyd fod Mr Elfed ap Elwyn yn ei swydd newydd fel cydlynydd y neuadd wedi cysylltu er mwyn gofyn pe bai'n bosib rhoi dyddiadur digwyddiadau'r pentref ar y wefan. Cytunwyd y byddai'n bosib i ni wneud hyn yn dilyn hyfforddiant i aelodau'r Cyngor ar sut i weinyddu'r wefan.

2409(2) – Cerbydau y Maes Parcio - Adroddwyd bod y camper fan felyn wedi mynd o'r maes parcio, ond bod y camper fan arall yn parhau i fod yno. Dywedwyd fod Lloyds Coaches wedi nodi ar eu tudalen Facebook bod cerbydau wedi parcio fel nad oeddynt yn medru dod drwy'r pentref ar yr 28ain o Fehefin pan oedd y noson lawen yn cael ei chynnal yn y neuadd bentref. Ni ddaeth y bws i'r pentref weddill y noson nac ar Ddydd Sul y 29ain o Fehefin. Cytunwyd i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd gyda sgrin luniau o'r hyn a roddwyd ar Facebook yn ogystal a llun o gamera un o drigolion y pentref oedd yn dangos bod y bws wedi medru pasio am 7:30yh ar y noson honno. Nodwyd y dylai trefnwyr y gweithgareddau sy'n digwydd yn y neuadd adael i'r cwmni bysus wybod o flaen llaw bob amser.

2416(3) - Ffordd y Pentref – Adroddwyd bod nifer o farciau wedi eu rhoi o amgylch y pentref er mwyn paratoi i wneud gwaith ar y ffyrdd, a bydd y gwaith yma'n cychwyn ddiwedd fis Awst.

2417(3) - Tender ar gyfer torri gwair y Llwybrau Cyhoeddus, Mynwentydd Pencefn a Salem, Gardd Salem, Cae Chwarae Ty Llwyd a'r tir o amgylch Cofeb Hedd Wyn – Adroddodd y Swyddog Ariannol nad yw'n medru dod o hyd i neb dorri gwair y llwybrau cyhoeddus. Gyrrwyd llun o'r gôr-dyfiant ar y llwybrau cyhoeddus ymlaen i Mr Gwyn Evans. Adroddodd y Swyddog Ariannol ei bod wedi gofyn unwaith yn rhagor i Mr Williams farcio'r lleoliadau yr oedd yn ei dorri. Dywedodd y Cynghorydd Idwal Williams bod dŵr wedi hel ar Llwybr Cul am 20 llath. Mae Mr Gwyn Evans yn ymwybodol o'r broblem ac am wneud rhagor o ymholiadau cyn dod o hyd i unigolyn i dorri'r gwair ar y llwybr cyhoeddus.

2429(2) - Mynwent Salem – Adroddodd y Clerc bod Mr Robat Jones am godi'r wal unwaith bydd tymor yr ysgol wedi gorffen am yr Haf a cadarnhaodd y Cynghorydd Sarah Hughes bod yn iawn iddo ddefnyddio dŵr o'r Cross Foxes.

2429(4) - Ffordd gefn 7-12 Bro Prysor – Adroddodd y Clerc nad oedd ymateb pellach i'r e-bost ers tri mis yn nodi bod yr ymholiad wedi ei drosglwyddo i adran benodol. Penderfynwyd gyrru e-bost i bennaeth Adra i ofyn am eu gweithdrefn cwynion er mwyn ei gyfeirio ymlaen i'r Ombudsman.

2435(1) - Ffens bren rhwng Maes Graean a Cefn Gelltgwm – Adroddoddwyd nad oedd y gwaith wedi ei gwblhau. Cytunwyd i yrru e-bost i Mr Merfyn Morris i nodi ei fod yn beryglus yn awr i unrhyw un oedd yn cerdded ar y llwybr yma a bod angen trwsio'r ffens yn ogystal a thorri'r tyfiant ar fyrder.

2435(2) - Byrddau Dehongli ac Arwydd y Llyn – Cytunwyd i ofyn i'r Cynghorydd Sir am ddiweddariad yng nghyfarfod mis Medi.

2440(3) – Cae Chwarae Ty Llwyd - Adroddwyd bod y Cadeirydd Aron Roberts wedi cael prisiau am gyfarpar i'r cae chwarae. Dywedwyd bod dau bris (pris cwmni rhif 1- £6000 a £1000 i'w osod Pris cwmni rhif 2 -£8000). Eglurwyd bod y cyfarpar ar gael mewn plastig neu bren. Dywedodd y Swyddog Ariannol ei bod wedi bod mewn cysylltiad a chyngor Gwynedd i holi am grantiau a nad oedd wedi clywed dim wedyn. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn cael gair gyda trigolion Stesion i weld pa gyfarpar y byddent yn ei ffafrio ac yna gyrru e-bost i'r Cynghorwyr er mwyn cytuno.

2440(5) - Arian Llys Ednowain - Adroddodd y Swyddog Ariannol nad oedd wedi derbyn galwad yn ôl gan Adra ynglŷn a phrynu cae Bro Prysor. Cytunwyd i ofyn i drigolion y pentref i roi awgrymiadau dros e-bost, Facebook y Cyngor, gwefan y Cyngor yn ogystal â gofyn i Mr Iwan Jones i osod blwch yn siop Glyndwr a hefyd yn Sioe Amaethyddol Trawsfynydd ar y 13eg o Fedi er mwyn casglu syniadau trigolion y pentref.

2441(2) - Bron Gwyndŷ – Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Cyngor Gwynedd yn diolch iddi am gysylltu ac y daw nhw'n ôl atom cyn gynted a phosib. Cytunwyd i ail yrru e-bost i ofyn am ddiweddariad a chopio'r Cynghorydd Sir Elfed Roberts i'r e-bost.

2441(3) – Llwybr beics o amgylch y Llyn
Adroddodd y Cynghorydd Idwal Williams bod y mieri wedi gôr dyfu ar y llwybr beics a cytunwyd i ofyn i gwmni Tir a Choed wneud y gwaith tacluso rhwng Afon Islyn a Nant Tyddyn Ynn. Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones ei fod wedi derbyn lluniau o bont oedd wedi pydru a nad oedd o fewn plwyf Trawsfynydd cytunwyd i yrru'r wybodaeth ymlaen i Gynghorau Cymuned Maentwrog a Thalsarnau.

2456(1) – Diod Feddwol yn y Neuadd - Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones ei fod wedi bod mewn cysylltiad gyda Mrs Helen Wyn Jones, a'i bod am ddod ar goriad i'r safe sydd yn y seler. Nid oedd y Cynghorydd Hefin Jones wedi derbyn y goriad hyd yma.

2456(3) – Cae chwarae Cefn Gwyn - Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost yn dweud eu bod wedi trosglwyddo'r e-bost i'r adran benodol i osod clo ar y giât yn Cefn Gwyn.

2464(1) - Gor-yrru yn Stesion - Adroddodd y Clerc nad oedd diweddariad am y twmpathau yn y Stesion a na chlywodd ddim yn ôl wedyn. Cytunwyd i ofyn i Cyngor Gwynedd os oes modd gosod mesurydd cyflymder sy'n fflachio os oes unrhyw un yn torri'r terfyn cyflymder.

2464(2) – Gardd Sgwar y Pentref - Adroddwyd bod y Cynghorydd Enid Roberts wedi prynu 2 fag o bridd a gwerth £5-£10 o flodau, cytunwyd ei had-dalu.

2646(3) – Coeden wrth Afon Prysor - Adroddodd y Clerc bod ymateb wedi ei dderbyn gan Mr Gwyn Evans yn dweud eu bod wedi derbyn yr e-bost am y goeden oedd bron a chwympo i Afon Prysor. Gofynnwyd am union leoliad y goeden a gyrrwyd ymateb i ddweud bod yn bosib ei gweld o bont Afon Prysor. Nid oedd y goeden wedi ei thorri hyd yma.

2464(4) - Ci rhydd - Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones bod ci yn denyg yn aml o Eirianfa Trawsfynydd LL41 4SF. Penderfynwyd i yrru e-bost i'r warden cŵn a gwarchod y cyhoedd, ac os oes unrhyw un yn ei weld yn rhydd yna dylid ffonio'r Heddlu. Adroddwyd ymhellach bod y mater wedi ei gyfeirio at Mr Christopher Smith, Swyddog Rheoli Pla sydd hefyd yn delio a chŵn strae. Nodwyd yn yr e-bost os yw'r ci hwn yn achosi perygl yna bod angen ffonio'r Heddlu ar unwaith. Adroddodd y Clerc ei bod wedi ffonio'r Warden Cŵn yn ogystal.

2464(5) - Sedd Wâg - Adroddodd y Swyddog Ariannol bod angen cysylltu gyda Chyngor Gwynedd er mwyn eu hysbysebu am y sedd wag. Derbyniwyd llythyr gan Miss Glain Williams yn datgan diddordeb yn y sedd wag. Adroddodd y Swyddog Ariannol bod yn rhaid i rybudd swyddogol gael ei arddangos i hysbysu bod sedd wag ar y Cyngor. Dywedwyd y byddai'r

Cynghorydd Hefin Jones yn gosod hysbyseb ar yr hysbysfwrdd yn nodi y dyddiad cau ar y 18fed o Orffennaf. Cytunwyd y byddai'r Swyddog Ariannol yn gyrru e-bost i egluro'r broses i Miss Glain Williams.

## 2468 - GOHEBIAETH

(1) Adroddwyd bod y Cynghorydd Hefin Jones wedi cysylltu gyda Mr Steffan Williams er mwyn iddo ddod i'r cyfarfod i drafod y clwb ieuenctid ond nid oedd neb ar gael, gyrrwyd costau clwb ieuenctid am y flwyddyn dros e-bost. Eglurwyd bod angen hysbysebu'r swydd i gael 2 unigolyn i weithio o fewn y clwb ieuenctid. Cytunwyd i yrru e-bost i Mr Steffan Williams yn nodi ein bod yn fodlon i'r clwb ieuenctid gynnal 20 sesiwn yn y pentref.

(2) Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Mrs Glynda O'Brien am y blodau a'r geiriau o gydymdeimlad a dderbyniodd yn dilyn marwolaeth y Cynghorydd Keith O'Brien.

(3) Derbyniwyd e-bost am ymgyrch i adfer yr enw traddodiadol Cymraeg "Llyn Celanedd" ar Warchodfa Natur Aberogwen yn lle'r enw Saesneg "The Spinnies". Nodwyd bod yr enw Cymraeg yn rhan o dreftadaeth leol ac yn adlewyrchu hanes, daearyddiaeth a diwylliant yr ardal. Anogwyd y Cyngor i gysylltu â Ms Frances Cattanach o Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i gefnogi'r newid hwn. Cytunwyd i gefnogi'r cais.

(4) Derbyniwyd e-bost gan Mr Elfed Wyn ap Elwyn, Cydlynydd newydd Prosiect Neuadd i'r Dyfodol Trawsfynydd. Nodwyd bod y prosiect wedi'i ariannu gan gronfa'r loteri ac yn anelu at fynd i'r afael â phroblemau'r ardal gan ddefnyddio'r neuadd fel canolbwynt cymunedol. Mae'r heriau a nodwyd yn cynnwys mynediad gwael i wasanaethau, ynysu cymdeithasol, angen am hwb cymunedol, a diffyg cyfleoedd i bobl ifanc. Anogwyd y Cyngor i rannu barn a syniadau ar sut y gellir cynnal digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol yn y neuadd. Bydd y mater hwn yn cael ei drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

(5) Cais Cynllunio Rhif: NP5/78/590 Estyniad i'r feranda bresennol ar hyd y drychiad deheuol Chalet 268, Pentref Gwyliau Trawsfynydd, Bronaber. LL41 4YB. Cytunwyd a chymeradwywyd y cais cynllunio.

(6) Derbyniwyd cais gan Mr Adrian Roberts am gopi o 'undertaking' y llys a gyflwynwyd i Mr McMahon ar y 7fed o Orffennaf 2022 yn ymwneud â'r tir y tu ôl i dai Rhifau 1–6 Bro Prysor, Trawsfynydd. Cadarnhawyd nad oedd gan y Cyngor gopi o'r ddogfen, ond y gellir ei chael drwy'r llys neu'r gofrestrfa tir.

## 2469 - ADRODDIAD ARIANNOL

(1) Derbyniwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol a cytunwyd ar y taliadau oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

(2) Adroddodd y Swyddog Ariannol bod cyfraddau llog y cyfrif Business Money Manager yn gostwng.

## 2470 - MATERION I'W TRAFOD AR Y PRYD

(1) Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones bod gardd Bryn Glas wedi mynd yn flêr a bod yr hysbysfwrdd wedi torri. Penderfynwyd y byddem yn tynnu'r hysbysfwrdd o'r ardal a gofyn i Wasanaethau Tir A Choed glirio'r safle.

(2) Adroddwyd bod injan dân wedi ei galw i Stesion ac yr oedd wedi cael trafferth mynd o amgylch cornel oherwydd bod ceir wedi parcio'n fler. Penderfynwyd i yrru e-bost i CCF yn gofyn os oedd pwynt trydan ar ochr allanol y giât er mwyn medru symud y diffibiwlator a thynnu'r blwch ffon yn ôl gan ei fod yn atal i geir basio.

(3) Adroddwyd bod y wal wedi disgyn tu ôl i'r Cross Foxes y wal sydd rhwng y Cross Foxes a chae Mr David Jarrett. Cytunwyd anfon e-bost i Mr Gwyn Evans fel ei fod yn ymwybodol.

(4) Adroddodd y Cynghorydd Llywarch Davies bod cyfeiriad y cyn Glerc yn parhau i fod ar ddogfennau'r Cyngor. Cytunwyd gofyn i Gyngor Gwynedd ddiweddaru'r cyfeiriad i'r Clerc presennol.

(5) Gofynnodd y Cynghorydd Annest Smith a fyddai modd i'r Cyngor ddarparu anfonebau am angladdau'n syth. Eglurodd y Swyddog Ariannol bod yn rhaid i'r Cyngor aros i dderbyn anfoneb y torrwr beddi cyn gyrru anfoneb y Cyngor Cymuned i'r ymgymerwyr.

(6) Adroddodd y Swyddog Ariannol bod cytundeb gyda Mr Tom Edwards i dorri gwair y mynwentydd 3 gwaith y flwyddyn ond dywedwyd bod angen torriad ychwanegol, cytunwyd y byddai'r gwair yn cael 4 torriad eleni. Adroddwyd bod y Swyddog Ariannol wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd i gael bin brown i ardd Salem ar gôst o £40 y flwyddyn er mwyn i Mr Andrews waredu'r gwair.

(7) Adroddwyd bod chwyn yn tyfu ar y llwybrau ym Mynwent Pencefn a bod angen chwyn laddwr yno. Cytunwyd i ofyn i Gwasanaethau Tir a Choed wneud y gwaith yma.

Nid oedd materion ar gyfer y cyfarfod nesaf.

<u>2471 - ADRODDIADAU O'R CYFARFODYDD YN YSTOD Y MIS</u>

<u>1962(1) a 2138 - Adeiladau Cyhoeddus y Pentref</u> - Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones bod Mr Elfed Wyn ap Elwyn wedi cychwyn ar ei swydd fel Cydlynydd i'r neuadd. Adroddwyd bod y pensaer wedi bod yn archwilio'r neuadd er mwyn penderfynu ar y gwaith trwsio sydd angen er mwyn cysylltu a chontractwyr i gael prisiau. Rhoddwyd cais am grant arall er mwyn cynhesu'r neuadd. Diolchwyd i Seimon ap Iorwerth am lenwi'r ffurflen ar lein ac a i Elfed Lewis am ei gymorth.

(1) <u>Is-bwyllgor Llwybrau</u> - Adroddodd y Cynghorydd Idwal Williams bod angen trefnu i gyfarfod ym Mryn y Gofeb cyn 5ed o Dachwedd. Adroddodd y Cynghorydd Enid Roberts ei bod wedi bod i Fryn y Gofeb yn ystod y dydd a defaid yno yn ogystal a ychydig o ysbwriel.

(2) <u>Grwp Rhanddeiliad Safle Trawsfynydd</u> - Adroddodd y Cynghorydd Llywarch Davies eu bod yn edrych i benodi prif gontractwr er mwyn gostwng uchder y 2 adeilad adweithyddion erbyn diwedd mis Medi a bod y gwaith i gychwyn ar ddechrau mis Ionawr 2026. Ychwanegodd y Cadeirydd Aron Roberts eu bod yn tynnu'r adeiladau i lawr i gopa'r to ar hyn o bryd, ond bod angen i ni fel cymuned wthio'r NRS i ddymchwel yr adeiladau'n gyfan gwbl. Adroddwyd bod trelar gwybodaeth/arddangosfa NRS am ddod i'r Sioe Amaethyddol a pwysleisiwyd ei fod yn hanfodol bwysig i ni roi y neges fel cymuned i'r NRS ein bod eisiau i'r adeiladau gael eu dymchwel yn gyfan gwbl. Penderfynwyd i yrru e-bost gan y Cyngor i gyfarwyddwr y safle Mr Tom Williams yn mynegi ein barn.

CYFARFOD NESAF YR 3YDD O FEDI 2025.